# Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang

Dealltwriaeth gyffredin ar gyfer y sector dysgu oedolion a'r gymuned

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk











## Gwybodaeth

Dogfen wybodaeth rhif: 106/2012
Dyddiad cyhoeddi: Mawrth 2012

# Dealltwriaeth gyffredin ar gyfer y sector dysgu oedolion a'r gymuned

**Cynulleidfa**

Unigolion, grwpiau a sefydliadau sy'n gweithio yn y sector dysgu oedolion a'r gymuned yng Nghymru, gan gynnwys ymarferwyr, rheolwyr a rhanddeiliaid eraill sy'n ymwneud â datblygiad neu hyfforddiant dysgu oedolion a'r gymuned; cyrff cenedlaethol a lleol yng Nghymru sydd â rhan mewn Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang (ADCDF); sefydliadau'r sector gwirfoddol, awdurdodau lleol; sefydliadau addysg bellach ac addysg uwch.

**Trosolwg**

Mae'r ddogfen hon yn adnodd i roi gwybodaeth ac arweiniad i ddarparwyr, tiwtoriaid, hyfforddwyr ac oedolion sy'n dysgu. Mae'n fan cychwyn ar gyfer integreiddio a chyfnerthu ADCDF yn eu harferion ac wrth ddysgu.

Mae llunio cyfres o ddogfennau 'cyd-ddealltwriaeth' yn rhan o strategaeth ADCDF Llywodraeth Cymru, sy'n anelu i integreiddio ADCDF i bob sector addysg yng Nghymru.

**Camau i'w cymryd**

Dim – er gwybodaeth yn unig.

**Rhagor o wybodaeth**

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch y ddogfen wybodaeth hon at:

Yr Is-adran Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol
Yr Adran Addysg a Sgiliau
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
Ffôn: 029 2080 1402
Ffacs: 029 2082 5119
e-bost: esdgc@cymru.gsi.gov.uk

**Copïau ychwanegol**

Mae copïau ychwanegol ar gael o'r cyfeiriad uchod. Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yn www.cymru.gov.uk/addysgasgiliau

**Dogfennau cysylltiedig**

*Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang: Strategaeth Weithredu* (2006)

*Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang: Strategaeth Weithredu – Diweddariad* (Ionawr 2008)

ISBN 978 0 7504 6746 9
© Hawlfraint y Goron 2012
WG13748

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| **Crynodeb** | **1** |
| **Adran 1: Cyflwyniad** | **2** |
| Beth yw Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang (ADCDF)? | 2 |
| Pam y dylai ymarferwyr dysgu oedolion a’r gymuned integreiddio ADCDF i'w gwaith? | 4 |
| **Adran 2: ADCDF mewn dysgu oedolion a’r gymuned** | **7** |
| **Adran 3: Yr hyn y mae ADCDF yn ei olygu i randdeiliaid allweddol mewn dysgu oedolion a’r gymuned** | **8** |
| Meysydd Cyffredin ADCDF | 9 |
| **Adran 4: Archwilio ADCDF yng nghyd-destun dysgu oedolion a’r gymuned** | **16** |
| **Adran 5: Effaith, dilyniant a datblygiad** | **20** |
| **Atodiad A: Rhestrau gwirio i ddatblygu a chychwyn y broses hunanwerthuso** | **22** |
| **Atodiad B: Themâu a chysyniadau mewn ADCDF** | **30** |
| **Cyfeiriadau** | **32** |

# Crynodeb

Bwriad y ddogfen hon yw egluro'r hyn a olygir wrth drafod ADCDF.  Mae'n nodi pam y mae ADCDF yn bwysig i'r sector dysgu oedolion a'r gymuned, a sut y gall hyfforddwyr, athrawon a thiwtoriaid gymryd camau i sefydlu ADCDF yn eu cynllunio, eu haddysgu a'u gwaith gyda dysgwyr ar bob lefel.

Mae wedi'i seilio ar safbwyntiau a barn ymarferwyr yn y maes hwn, ac ar adborth beirniadol mewn sectorau eraill.

Ceir esiamplau o'r modd y darperir ADCDF ar hyn o bryd mewn amryw o weithgareddau o fewn y sector dysgu oedolion a'r gymuned, ac mae'r ddogfen hon yn trafod ffyrdd o ddatblygu hyn ymhellach drwy'r meysydd canlynol:

- Ymrwymiad ac Arweiniad.
- Dysgu ac Addysgu.
- Rheoli sefydliadol.
- Cymuned a Phartneriaethau.
- Ymchwil a monitro.



# Adran 1: Cyflwyniad

Nod sylfaenol ADCDF yw rhoi gwybodaeth a sgiliau i bobl allu ymdopi â'r heriau mawr y mae'r byd a'i drigolion yn eu hwynebu, fel y newid yn yr hinsawdd, prinder tanwydd a bwyd, bioamrywiaeth a rhywogaethau sy'n darfod o'r tir, rhyfeloedd rhyngwladol, terfysgaeth a thlodi.

**"Mae newid yn yr hinsawdd, tlodi, gwrthdaro a phwysau ar ddefnyddwyr yn rhan o'n byd heddiw. Mae ADCDF yn ceisio dod o hyd i ffyrdd o godi ymwybyddiaeth a chamau gweithredu er mwyn mynd i'r afael â chanlyniadau ein dewisiadau ffordd o fyw a'n paratoi ar gyfer byw'n gynaliadwy yn yr unfed ganrif ar hugain fel dinasyddion byd-eang."**

*Jane Hutt, Y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes yn Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang – Strategaeth Weithredu, Diweddariad Ionawr 2009.*

Mae'r sector dysgu oedolion a'r gymuned yn hynod o amrywiol o ran ei ddysgwyr, ei ddarparwyr a'r meysydd cwricwlwm a gynigir. Mae'r sector dysgu oedolion a'r gymuned mewn sefyllfa dda i ddarparu ADCDF i'r dysgwyr anoddaf eu cyrraedd na fyddai fel arall â diddordeb mewn addysg brif ffrwd. Darperir dysgu oedolion a'r gymuned gan awdurdodau lleol, sefydliadau gwirfoddol a chymunedol, sefydliadau addysg bellach (AB), sefydliadau addysg uwch (AU), darparwyr dysgu seiliedig ar waith ac eraill gan gynnwys carchardai, amgueddfeydd a llyfrgelloedd. Mae i addysg oedolion yng Nghymru hanes cyfoethog, ac mae Dysgu Gydol Oes yn parhau i gael lle blaenllaw ym mholisi Llywodraeth Cymru.

Mae Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang yn thema sy'n llifo drwy nifer o bolisïau a strategaethau Llywodraeth Cymru, yn enwedig y rhai hynny sy'n canolbwyntio ar addysg oedolion. Yn wir, caiff agweddau craidd ADCDF eu hadlewyrchu yn yr egwyddorion sydd wrth wraidd addysg oedolion. Mae hyn yn cynnwys yn arbennig egwyddorion cyfiawnder cymdeithasol, cyfle cyfartal a chydlyniant cymdeithasol.

## Beth yw Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang (ADCDF)?

**Mae a wnelo ADCDF â'r:**

- **Cysylltiadau rhwng cymdeithas, yr economi a'r amgylchedd, a rhwng ein bywydau ni ein hunain a bywydau pobl ar hyd a lled y byd.**
- **Anghenion a hawliau cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol.**
- **Y berthynas rhwng pŵer, adnoddau a hawliau dynol.**
- **Goblygiadau lleol a byd-eang popeth a wnawn a'r camau y gall unigolion a sefydliadau eu cymryd i ymateb i faterion lleol a byd-eang.**

***(ADCDF Pam? Beth? Sut?* ACCAC 2002)**

Yr hyn sydd wrth wraidd ADCDF yw sylweddoli na fu’r cyswllt rhwng ein bywydau ni a bywydau pobl eraill ar hyd a lled y byd erioed mor agos yn hanes y ddynoliaeth, ac mai yr un grymoedd, neu rymoedd tebyg sy'n effeithio arnom ni i gyd o safbwynt yr economi, cymdeithas, a'r amgylchedd.

**Pam y mae ADCDF yn bwysig?**

Mae nifer o elfennau i'r broses globaleiddio sydd wedi'n tywys yn nes at ein gilydd. Un o'r rhain yw datblygiad economi wirioneddol fyd-eang a'r gyfundrefn fasnachu ryngwladol a ddaw yn ei sgil ac sydd, yn ôl rhai, yn ei diffinio. Yr hyn sydd wedi galluogi'r economi fyd-eang hon yw'r dechnoleg sydd wedi goresgyn pellteroedd, hwyluso teithio a chyflymu cyfathrebu. Mae datblygiadau mewn technoleg gwybodaeth "wedi dod â'r byd i'n hystafell fyw", ac wedi dylanwadu ar ein canfyddiad o rannau eraill y byd. Mae'r cyfryngau hyn sydd wedi'u globaleiddio, drwy hysbysebu ar ei holl ffurfiau mwyaf cynnil, hefyd wedi porthi patrymau defnyddio a disgwyliadau sy'n amlwg wedi effeithio ar ymdeimlad pobl o'u diwylliant a'u hunaniaeth hwy eu hunain.

Mae'r economi fyd-eang wedi dod â ffyniant i nifer o bobl, ond wedi bygwth bywoliaeth eraill yn yr un modd. Mae hyn yn effeithio ar weithiwr yn un o gymoedd De Cymru a gaiff ei ddiswyddo gan fod cwmni'n trosglwyddo'r gwaith dramor er mwyn manteisio ar gostau llafur is, yn ogystal â'r ffermwr coffi, a gaiff ei yrru oddi ar y tir oherwydd anghyfiawnder oddi mewn i'r gyfundrefn fasnachu ryngwladol; er nad oes gan y ffermwr coffi'r gyfundrefn fudd-daliadau fel rhwyd diogelwch i ddibynnu arno.

Drwy hanner olaf yr ugeinfed ganrif, wrth i'r broses globaleiddio gyflymu, cynyddu hefyd a wnaeth y pryder bod cyflymder a natur y datblygiad economaidd a diwydiannol yn cael effaith niweidiol, os nad trychinebus, ar amgylchedd y byd. Yr hyn sy'n sylfaenol yn y ddadl gynyddol ynghylch datblygu cynaliadwy yw'r angen, yng ngeiriau cynllun datblygu cynaliadwy Llywodraeth Cymru, i “ddysgu byw'n wahanol” ac i ganfod ffordd i'n systemau economaidd a gwleidyddol allu cyfrannu tuag at y broses.

Mae ADCDF yn pwysleisio rhan yr unigolyn fel dinesydd byd-eang a sut y gall ddeall y cysylltiadau hyn a meithrin y gwerthoedd, yr agweddau a'r hyder a all arwain at ymddwyn yn gyfrifol ac ymrwymo i greu byd cyfiawn a chynaliadwy.

> ***“Ni ddaw gwybodaeth ond drwy ddyfeisio ac ailddyfeisio, drwy'r ymholi aflonydd, diamynedd, parhaus a gobeithiol gan ddynion yn y byd, gyda'r byd a chyda'i gilydd.”***
>
> **Paolo Freire, “Pedagogy of the oppressed”.**

Mae gan Gymru dreftadaeth gyfoethog o ran diwylliant ac iaith a rhan annatod o ADCDF yw cydnabod a gwerthfawrogi amrywiaeth ddiwylliannol yng nghyd-destun Cymru a'r byd. Yn hyn o beth, mae'n allweddol cydnabod a gwerthfawrogi safbwyntiau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig o fewn Cymru a chanfyddiadau pobl mewn gwledydd sy'n llai datblygedig o safbwynt economi, a chydnabod sut y gall yr

holl safbwyntiau gwahanol hyn gyfrannu tuag at ddealltwriaeth o ADCDF.  Yn y modd yma, gall mabwysiadu gwerthoedd ADCDF a datblygu'r materion hyn ymhellach gynorthwyo i herio hiliaeth a chwalu ystrydebau a rhwystrau.




## Pam y dylai ymarferwyr dysgu oedolion a’r gymuned integreiddio ADCDF i'w gwaith?

Mae'r heriau o'n blaen, yn enwedig y newid yn yr hinsawdd, yn golygu bod galw am ffurf newydd o "lythrennedd byd-eang" sy'n ein galluogi i fynd ati i ddelio â’r problemau ac sy'n gwneud inni deimlo ein bod yn gallu ymuno ag eraill i greu newid cadarnhaol.

Nid corff o wybodaeth yn unig mo ADCDF – mae'n ymwneud i'r un graddau â gwerthoedd, agweddau a sgiliau.  Ethos ydyw sy'n adlewyrchu ethos presennol dysgu oedolion a’r gymuned ac mae eisoes yn bresennol mewn nifer o ddosbarthiadau addysg oedolion, grwpiau datblygu cymunedol a chyrsiau astudio undebau llafur.  Bydd ymgorfforri ADCDF o fewn dysgu oedolion a’r gymuned yn cefnogi'r ethos hwn drwy helpu i wella’r sgiliau meddwl beirniadol hyn a thrwy fabwysiadu agwedd gadarnhaol a gweithredol tuag at ddinasyddiaeth ar raddfa leol ac ar raddfa fyd-eang.

Mae'n bwysig ymwreiddio ADCDF mewn dysgu ac addysgu, ac yn aml dyma'r cam cyntaf a gymerir gan diwtoriaid a sefydliadau.  Y nod yn y pen draw, fodd bynnag, yw ymgorffori ADCDF ym mhob agwedd ar ddysgu oedolion a’r gymuned er mwyn iddo ddod yn rhan annatod o athroniaeth y sefydliad o ran rheoli a gweithredu.

Mae dysgu oedolion a’r gymuned yn cyrraedd cynulleidfa arbennig o eang ac yn hyblyg o ran y dulliau o’i ddarparu. Fe'i nodweddir hefyd gan nifer a natur amrywiol y partneriaid sy'n cymryd rhan yn y broses o'i ddarparu. Mae felly'n hanfodol cydnabod y patrwm cymhleth a chyfoethog hwn o ran y ddarpariaeth, a chynnwys y partneriaid amrywiol yn y broses honno a sicrhau eu bod yn ymrwymo i'r broses.

Mae arferion ADCDF a dysgu oedolion a’r gymuned yn debyg iawn i’w gilydd o ran cydnabod pwysigrwydd rhoi lle canolog i'r dysgwr, sy'n annog pobl i feddwl yn feirniadol ac wedi’i anelu at rymuso'r myfyriwr.

***Ai ADCDF yw hyn?***

*Ni fyddai cwrs addysg oedolion, nad yw ond yn darparu cynnwys sy'n seiliedig ar wybodaeth ynghylch materion amgylcheddol neu ddatblygiad rhyngwladol neu gynaliadwy o reidrwydd yn ADCDF. Rhaid iddo gynnwys y dimensiwn sgiliau, gwerthoedd ac agweddau ac annog y dysgwr i weithredu'n gadarnhaol.*

**Safbwynt Estyn**

Mewn cyhoeddiad diweddar gan Estyn (Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang mewn dysgu oedolion a’r gymuned a gwaith ieuenctid yng Nghymru, 2008) amlygwyd yr angen i ddarparwyr dysgu oedolion a’r gymuned gydweithio'n agosach â'i gilydd mewn perthynas ag ADCDF, yn enwedig er mwyn rhannu adnoddau ac arfer da. Bydd y partneriaethau dysgu oedolion a’r gymuned newydd yn sylfaen dda i ddarparwyr gadarnhau neu ddechrau'r broses hon.

Nodwyd hefyd yn nogfen Estyn:


"Mae darparwyr ledled Cymru yn datblygu rhwydweithiau i gefnogi ADCDF mewn dysgu oedolion a’r gymuned a gwaith ieuenctid. Mae enghreifftiau’n cynnwys rhwydweithiau dysgu oedolion lleol, grwpiau partneriaeth pobl ifanc, Dysgu Cymunedol Cymru, grŵp Rheolwyr Allymestyn Fforwm, Fforwm Addysg Amgylcheddol Abertawe a’r Ganolfan Addysg Byd ym Mhrifysgol Bangor. Mae’r holl grwpiau hyn yn dwyn ynghyd ystod o ddarparwyr i ddatblygu gweithgareddau ADCDF mewn lleoliadau gwaith oedolion ac ieuenctid fel ei gilydd. Fodd bynnag, mae’r rhwydweithiau yn colli cyfleoedd i gysylltu â’i gilydd yn dda. Nid yw’r rhwydweithiau bob amser yn nodi adnoddau a chynlluniau a allai wella gweithio ar y cyd mewn ardaloedd lleol”.

Mae amrywiaeth y rhwydweithiau presennol hyn yn cynnig cyfle i ddarparwyr elwa ar brofiad eraill ac i ymarferwyr ADCDF o bob sector addysg ddysgu oddi wrth ei gilydd.

Roedd yr argymhellion yn adroddiad Estyn i ddarparwyr unigol ym maes dysgu oedolion a’r gymuned yn cynnwys y canlynol:

- dylent greu cysylltiadau pellach ar draws dysgu oedolion a’r gymuned a rhwydweithiau gwaith ieuenctid i wella gweithio ar y cyd mewn ardaloedd lleol;

- dylent gysylltu'r holl gynlluniau sefydliadol â strategaeth a chynllun gweithredu Llywodraeth Cymru ar gyfer ADCDF;
- dylent ddatblygu hyfforddiant pellach ar gyfer yr holl staff newydd a phresennol i wella'r ddealltwriaeth o ADCDF ac i ymwreiddio ADCDF yn eu gwaith; a
- dylent sicrhau bod unrhyw hyfforddiant a gynigir i weithwyr yn pwysleisio saith thema allweddol ADCDF fel bod gweithwyr yn gallu gweithredu ar faterion datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang yn eu gwaith.




Nid oes gan nifer o ddarparwyr oedolion a gwaith ieuenctid, rhwydweithiau partneriaethau plant a phobl ifanc (PPPhI) a rhwydweithiau dysgu oedolion ddealltwriaeth glir o'r ystod o fanteision addysgol sy'n deillio o gynnwys ADCDF yn eu gwaith. Nid yw rheolwyr strategol yn cynllunio'n ddigon da i sicrhau bod polisïau sefydliadol yn cael eu cyflwyno mewn ffordd sy'n cynnwys dysgwyr wrth gymryd camau gweithredu. Nid yw nifer o ddarparwyr yn gwerthuso effaith ADCDF o fewn eu rhaglenni ac yn aml maent yn aneglur ynghylch yr effaith y caiff eu gwaith ar ddysgwyr.

**Adroddiad Estyn, Awst 2008**


*Dyma wir baradocs addysg – cyn gynted ag y bydd rhywun yn dechrau dod yn ymwybodol, mae'n dechrau archwilio'r gymdeithas y mae'n cael ei addysgu ynddi.*
***James Baldwin***

# Adran 2: ADCDF mewn dysgu oedolion a’r gymuned

### Beth sy'n gyffredin rhwng dysgu oedolion a’r gymuned ac ADCDF?

Mae natur anffurfiol a hyblyg llawer o'r ddarpariaeth ar gyfer dysgu oedolion a’r gymuned yn annog rhoi lle canolog i'r dysgwr sydd, i raddau helaeth, yn defnyddio profiadau dysgwyr ac yn rhoi gwerth ar y profiadau hynny ac yn annog y dysgwyr i’w cyfarwyddo eu hunain. Mae dysgu oedolion a’r gymuned yn hyrwyddo cyfle cyfartal, ac yn ennyn hyder a hunan-barch y dysgwyr. Mae hyn i'w weld yn thema glir sy'n llifo drwy nifer o fentrau allweddol dysgu oedolion a’r gymuned fel ehangu cyfranogiad a rhaglenni dychwelyd i ddysgu.

Mae'r broses ddysgu mewn ADCDF yn rhoi pwyslais ar gyfranogiad a dysgu gweithredol, a hefyd yn pwysleisio'r hyn y mae profiad a gwybodaeth y dysgwr yn ei gyfrannu i'r broses. Mae dysgu oedolion a’r gymuned ac ADCDF yn rhannu'r nod cyffredin o rymuso unigolion a'u galluogi i ddatblygu'n ddinasyddion gweithgar ac ymwybodol, gan gydnabod angen dysgwyr i ymgysylltu'n annibynnol ac yn feirniadol â'r prosesau a'r rhwydweithiau sy'n datblygu o ganlyniad i newid byd-eang.




Mae dysgu oedolion a’r gymuned ac ADCDF yn cyd-daro â'i gilydd yn llawer o'r sgiliau, y gwerthoedd a'r agweddau y maent yn ceisio'u datblygu a'u hwyluso ac ymhelaethir ar hyn yng nghanllaw ymgeisio LLUK ar gyfer ADCDF.

Yn narpariaeth dysgu oedolion a’r gymuned ac ADCDF, fel ei gilydd, ceisir bod yn hyblyg a chanolbwyntio ar ymagwedd sy'n seiliedig ar anghenion lle gellir negodi'r cwricwlwm, ac felly ei wneud yn berthnasol i'r dysgwr.

Mae a wnelo ADCDF hefyd ag ehangu'r ddadl a chynnwys safbwynt byd-eang mewn trafodaethau a dadleuon lle canolbwyntir yn ormodol ar y sefyllfa leol neu genedlaethol. Gall dysgu oedolion a’r gymuned ddarparu amgylchedd diogel i drafod y materion hyn sydd weithiau'n rhai dadleuol.

*Fel dinasyddion byd-eang, ein cyfrifoldeb ni yw datblygu'n gyfranogwyr gweithgar yn ein democratiaeth, a sicrhau yr amddiffynnir hawliau sifil pawb.*
***Robert Alan***

## Adran 3: Yr hyn mae ADCDF yn ei olygu i randdeiliaid allweddol mewn dysgu oedolion a’r gymuned

**Integreiddio**

Mae angen cynnwys ADCDF mewn modd cyfannol ym mhob agwedd ar y sector dysgu oedolion a’r gymuned gan gynnwys dysgu ac addysgu, arweiniad a rheoli sefydliadol.  Dylid gwneud hyn drwy weithio mewn partneriaeth gan fonitro drwy ddefnyddio systemau monitro ystyrlon sydd wedi'u sefydlu.

**Dyma ystyr ADCDF i diwtoriaid/hyfforddwyr:**

- Rhoi lle canolog i'r dysgwr a gwneud ADCDF yn berthnasol i fywydau dysgwyr.
- Rhannu arfer da ADCDF mewn dysgu oedolion a’r gymuned drwy adeiladu a chryfhau rhwydweithiau.
- Sylweddoli nad oes rhaid i chi fod yn arbenigwr ac y gall camau bach wneud gwahaniaeth.
- Annog a hwyluso dadlau a meddwl yn feirniadol a fydd yn galluogi dysgwyr i gysylltu syniadau a chysyniadau a gwneud penderfyniadau deallus.
- Canfod cyfleoedd i ymwreiddio a chodi ymwybyddiaeth o faterion sy'n ymwneud ag ADCDF ym mhob maes pwnc.
- Galluogi dysgwyr i fynd i'r afael â heriau a fydd yn rhan o'u bywyd yn y presennol a'r dyfodol fel y newid yn yr hinsawdd a'r gystadleuaeth ryngwladol am adnoddau.
- Helpu dysgwyr i sylweddoli natur gymhleth a chydberthynol y grymoedd cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol sy'n effeithio arnynt hwy ac ar bobl ar draws y byd.
- Gweld y materion sy’n codi a'r cysylltiadau rhwng ADCDF ac amrywiaeth a chydraddoldeb hiliol.

**Dyma ystyr ADCDF i ddysgwyr:**

- Deall y cysylltiadau rhwng cymunedau lleol a byd-eang a materion cysylltiedig.
- Meithrin sgiliau a chael cyfle i archwilio materion sy’n codi mewn ffyrdd sy'n eu galluogi i wneud penderfyniadau deallus.
- Cael eu hannog i gredu y gall unrhyw un wneud gwahaniaeth.
- Meithrin gwerthoedd o empathi a chred yn yr hyn sy'n ein huno fel dynoliaeth.
- Meithrin sgiliau meddwl beirniadol a myfyrio, a thrwy hynny ennyn hyder i herio agweddau a rhagdybiaethau yn y cyfryngau ac mewn mannau eraill.

**Dyma ystyr ADCDF i ddarparwyr:**

- Rhan o ethos, addysgeg, a threfniadaeth y darparwyr.
- Cyfres o werthoedd sy'n sail i ddarpariaeth ac arferion y sefydliad.
- Rhan gynhenid o'r modd y trefnir ac y rheolir y ddarpariaeth, ac wedi'i gynnwys yn holl hyfforddiant y staff.
- Rhywbeth y mae angen ei gydlynu ar draws yr holl sector.

**Dyma ystyr ADCDF i bartneriaid:**

- Yr holl bartneriaid yn ymwybodol o’i gilydd ac yn mabwysiadu safon gyffredin a dull cyffredin o weithio ynghyd ag ymrwymiad ar bob lefel ym mhob agwedd ar eu gwaith.



## Meysydd Cyffredin ADCDF

Yn “Strategaeth Weithredu” ADCDF (2006) nodwyd pum maes cyffredin sydd yr un mor berthnasol i'r holl sectorau addysg, ac awgrymwyd pwyntiau gweithredu ar gyfer pob un ohonynt yn y sectorau gwahanol.  Yn y paragraffau canlynol, amlinellir y meysydd cyffredin hyn a'r modd y maent yn berthnasol i'r sector dysgu oedolion a’r gymuned.

**Ymrwymiad ac arweiniad**

Mae angen i bob darparydd a phob partneriaeth ar bob lefel ymrwymo i ADCDF, o'r rheolwyr i'r dysgwyr, er mwyn gweithio mewn modd ystyrlon ac integredig. Gellir dangos ymrwymiad drwy gyfeirio'n benodol at bolisïau trefniadol, drwy ddarparu hyfforddiant i staff er mwyn meithrin dealltwriaeth o egwyddorion ac arferion ADCDF a thrwy ariannu'n ddigonol i ddarparu cymorth ychwanegol

Bydd rhai sefydliadau'n rhoi cyfrifoldeb ychwanegol i aelod o staff dros faes ADCDF oddi mewn i'r sefydliad. Bydd eraill yn hyrwyddo arfer da a gyflawnwyd eisoes fel cydnabyddiaeth ac fel dull o gefnogi datblygiad pellach.

**Enghraifft**

> Yn 2005 cynhaliodd Rhondda Cynon Taf ddiwrnod HMS i gyflwyno'r maes: "RhCT – Dinasyddion y Byd", yng Nghanolfan Amgylcheddol Leol Glyncornel. Roedd hyn yn cynnwys cymryd rhan mewn gweithdai, trafodaethau, prosiectau enghreifftiol a chyfle i bori drwy'r adnoddau addysg am y byd. Hefyd yn RhCT, archwiliwyd y themâu ar gyfer Wythnos Addysg Oedolion 2005 o safbwynt byd-eang, gan ganolbwyntio ar gymuned, diwylliant a dinasyddiaeth, brandio a chwmnïau amlwladol, undebau llafur, byw'n gynaliadwy, rhannu profiadau blaenorol o weithgareddau dysgu am y byd a chyflwyniad i adnoddau.
>
> Mae RhCT wedi parhau i roi blaenoriaeth i ADCDF yn rhan o ddysgu gydol oes, gan weithio gyda thiwtoriaid a gweithwyr datblygu cymunedol i integreiddio ADCDF i bob agwedd ar eu gwaith a symud ymlaen i greu digwyddiadau a phrosiectau am y byd sy'n cynnwys holl aelodau'r gymuned.

| **Heriau** |
|---|
| Pa gynlluniau sydd yn eu lle i gadw momentwm ADCDF a'r ymrwymiad iddi?<br>Pa fecanweithiau sydd yn eu lle i sicrhau ymrwymiad ymysg staff o'r lefel uchaf i'r lefel isaf? |

**Dysgu ac addysgu**

Mae dysgu oedolion a'r gymuned yn gweithredu ar draws nifer o gyrsiau, lefelau cyrhaeddiad a darpariaeth. Mewn llawer o fannau, mae ADCDF eisoes yn cael ei integreiddio i'r addysgu ac fe geir cyrsiau sy'n trafod ADCDF yn benodol. Gellir ehangu hyn ymhellach i holl feysydd a darpariaethau'r cwricwlwm.

Wrth gynllunio cwrs neu gwricwlwm, bydd angen i diwtoriaid a darparwyr ystyried cysylltiadau ag ADCDF.

Gellir cyflwyno ADCDF mewn bron unrhyw bwnc neu faes dysgu. Nid y pwnc yw'r ffactor sy'n cyfyngu ar ADCDF, ond yn hytrach y modd y cyflwynir y pwnc ac yr ymchwilir iddo gan diwtoriaid a dysgwyr.

Wrth gynllunio i gynnwys ADCDF, dyma rai cwestiynau i'w hystyried:

- A yw'r dysgu'n cynnig safbwyntiau o'r gorffennol, y presennol a'r dyfodol?
- A yw'n creu cydgysylltiadau rhwng y themâu hyn a rhwng pobl, llefydd a digwyddiadau ar raddfa leol yn ogystal ag ar raddfa fyd-eang?
- A yw'r dysgu'n mynd i'r afael ag unrhyw un o'r prif themâu oddi mewn i ADCDF - hy cyfoeth a thlodi, iechyd, newid yn yr hinsawdd, yr amgylchedd naturiol, traul ar adnoddau a gwastraff, hunaniaeth a diwylliant, dewisiadau a phenderfyniadau?
- A yw'r dysgu'n berthnasol i fywydau'r dysgwyr?
- A yw'n annog archwiliad beirniadol o faterion?
- A yw'r dysgu'n mynd i'r afael â materion dadleuol ac yn archwilio dulliau o ddatrys gwrthdaro?
- A yw'r dysgu'n archwilio gwerthoedd a safbwyntiau diwylliannol?
- A yw'n grymuso dysgwyr i gymryd camau priodol?

**Enghraifft**

Mae Cymdeithas Addysg y Gweithwyr De Cymru'n gweithio mewn partneriaeth â Sazani Associates ar brosiect trawswladol gan ddarparu hyfforddiant ac adnoddau ar gyfer dinasyddiaeth fyd-eang weithredol i'w tiwtoriaid. Mae'r prosiect yn defnyddio "sofraniaeth bwyd" fel dull o archwilio ADCDF. Mae'r lle canolog a roddir i'r dysgwr gyda phwyslais ar ddatblygu meddwl beirniadol, ac sydd wedi'i fabwysiadu'n eang mewn dysgu oedolion a'r gymuned, yn arbennig o addas ar gyfer ymgorffori ADCDF.

**Heriau**

A ddarperir digon o gefnogaeth, hyfforddiant ac adnoddau i diwtoriaid?

Pa fecanweithiau sydd wedi'u sefydlu i gymell ac ymgysylltu â staff addysgu sy'n gweithio'n rhan amser yn bennaf, ac i ddatblygu cymorth ganddynt?

*Peidiwch byth ag amau na all grŵp bach o bobl feddylgar ac ymroddedig newid y byd – yn wir, dyna'r unig beth sydd erioed wedi llwyddo i wneud hynny.*
***Margaret Mead***

**Rheoli sefydliadol**

Mae'n bwysig bod ADCDF yn cael ei hintegreiddio i ffyrdd o weithio ac arferion sefydliadau ar lefel reolaethol. Ar ôl hynny, gellir prif ffrydio ADCDF yn nhrefniadaeth yr holl sefydliad a'i gynnwys yn ei gynlluniau strategol.

**Enghraifft**

Mewn rhai sefydliadau AB, AU ac awdurdodau lleol, penderfynwyd penodi unigolyn i fod yn gyfrifol am gefnogi ADCDF. Yn aml, o fewn y cyfrifoldeb hwn canolbwyntir yn bennaf ar agweddau ar ddysgu ac addysgu ADCDF, ac mae rhai sefydliadau'n ehangu'r rôl hon i ganolbwyntio hefyd ar gaffael, ee defnyddio cynnyrch masnach deg, y ffordd mae ceiswyr lloches a ffoaduriaid yn cael eu trin yn lleol, polisïau ynni a chludiant a chynefino staff.

Mae'n hanfodol sicrhau yr ymgysylltir â staff ar bob lefel, ac er mwyn gwneud hyn mae nifer o sefydliadau'n darparu hyfforddiant i staff ar faterion o'r fath.

**Heriau**

Sicrhau bod ADCDF yn cael ei integreiddio i bob polisi. Mae hyn yn cynnwys polisïau sy'n ymwneud â rheoli a chynnal a chadw adeiladau, caffael, dysgu ac addysgu, cyfle cyfartal ac unrhyw bolisïau eraill priodol a bod dysgwyr yn ymwybodol o'r polisïau hyn a'r arfer y maent yn ei hyrwyddo.

**Partneriaeth**

Mae dysgu oedolion a'r gymuned yn cyrraedd cynulleidfa arbennig o eang, yn hyblyg o ran ei ddarpariaeth, ac yn aml yn cynnwys gwaith gyda nifer o bartneriaid annibynnol. Mae gwaith partneriaeth yn rhan gynhenid o ddysgu oedolion a'r gymuned – fe'i hanogir gan arianwyr ac yn aml mae'n rhan o'u meini prawf ariannu. Gan hynny, mae angen sicrhau ymrwymiad tuag at ADCDF ar draws partneriaethau. Gwneir hyn eisoes mewn rhai ardaloedd drwy rannu hyfforddiant ac arweiniad ym maes ADCDF. Mae hyn yn fuddiol ar bob lefel.

Gall sefydliadau cenedlaethol fel NIACE Dysgu Cymru, ColegauCymru, Cyfanfyd a Chymdeithas Addysg y Gweithwyr gynnal trefniadau priodol i rannu adnoddau, yn enwedig y rhai hynny sy'n gysylltiedig â dysgu ac addysgu, rhannu arfer da a hwyluso rhwydweithiau er mwyn cynorthwyo a chefnogi gwaith partneriaeth ADCDF ar bob lefel.

**Enghraifft**

Partneriaeth o weithwyr yn y sector addysg ôl-orfodol yn ardal Cyngor Dinas a Sir Abertawe yw Fforwm Addysg Amgylcheddol Abertawe. Mae'r grŵp yn cynnwys cynrychiolwyr o'r ddwy brifysgol, addysg bellach, Addysg Oedolion yr Awdurdod Lleol, Canolfan Amgylcheddol Abertawe, Uned Gynaliadwyedd a Thîm Cadwraeth Natur y Cyngor ac aelodau'r Ymddiriedolaeth Natur leol. Maent yn cydweithio i integreiddio ADCDF i'r ddarpariaeth dysgu gydol oes yn ardal Abertawe.

**Heriau**

Pa bartneriaethau sy'n cael eu datblygu fel cyfrwng i gefnogi ADCDF?

A yw partneriaethau dysgu oedolion a’r gymuned yn datblygu lle mae pob cyfranogwr yn barod i ddilyn nodau cyffredin ac anelu at ganlyniadau cyffredin?

**Ymchwil a monitro**

Mae monitro cynnydd a llwyddiant y broses o ddarparu ac integreiddio ADCDF yn barhaus yn bwysig ar bob lefel mewn sefydliad. Bydd ADCDF yn cael ei gynnwys oddi mewn i fframwaith arolygu Estyn ac i'w weld yn y broses adrodd flynyddol ar ansawdd ac effeithiolrwydd ar gyfer Llywodraeth Cymru. Mae'n bwysig nodi ADCDF ac elfennau o ddarpariaeth ADCDF sy'n bodoli yn yr arferion cyfredol, er mwyn canfod a deall yr heriau a geir a'r ffactorau sy'n cyfrannu tuag at arfer da. Bydd prosesau monitro da a chychwyn sylfaen o dystiolaeth o effeithiolrwydd, yn galluogi'r sector i symud ymlaen a rhoi mecanweithiau a strwythurau yn eu lle i ymwreiddio ADCDF ymhellach drwy'r holl ddarpariaeth.

**Enghraifft**

> Mae ADCDF eisoes wedi'i gynnwys yn *Fframwaith Arolygu Cyffredin Estyn.* Er mwyn gweithio tuag at ymwreiddio ADCDF, gall sefydliadau gynnwys ADCDF yn eu meini prawf monitro ac asesu. (Gweler Atodiad A.)

**Heriau**

Sicrhau bod ADCDF yn bresennol mewn prosesau monitro ac y dynodir meysydd ymchwil.

Datblygu dulliau arloesol o fesur effaith a newid mewn agweddau.



**Ymrwymiad ac arweiniad**

- Darparu hyfforddiant i staff ar ADCDF ar bob lefel.
- Hyrwyddo arfer da o fewn sefydliad.
- Rhoi cyfrifoldeb i aelod o staff am ADCDF o fewn y sefydliad.

**Dysgu ac addysgu**

1. Ymgorffori ADCDF yn holl feysydd y cwricwlwm.
2. Cysylltu â phartneriaid eraill i rannu adnoddau a gwybodaeth ac i ddarparu ymagwedd gyfannol.
3. Ystyried ADCDF wrth ddatblygu cwrs neu gwricwlwm.

**Partneriaeth**

- Rhannu hyfforddiant ac arweiniad.
- Rhannu adnoddau addysgu.
- Defnyddio rhwydweithiau ACL i gefnogi integreiddio ADCDF i'r gwaith a wneir ar y cyd â phartneriaethau.

**Ymchwil a monitro**

1 Monitro cynnydd a llwyddiant ADCDF ar holl lefelau'r sefydliad.

2 Mesur yn erbyn arfer da.

3 Ei gynnwys mewn meini prawf monitro ac asesu.

**Rheoli sefydliadol**

- Cyflwyno ADCDF i gynlluniau strategol, polisïau ac arferion.
- Ymgysylltu â staff ar bob lefel yn y broses hon.
- Ystyried ADCDF wrth gaffael.

**Ffig. 1 Esiampl o ymagwedd gyfannol tuag at ymwreiddio ADCDF mewn dysgu oedolion a’r gymuned**

# Adran 4: Archwilio ADCDF yng nghyd-destun dysgu oedolion a’r gymuned

Gall ehangder y materion yr ymdrinnir â hwy mewn ADCDF a'r cymhlethdod o ran y cysylltiadau a’r gydberthynas rhwng y materion hyn fod yn her i ymarferwyr a dysgwyr fel ei gilydd. Er mwyn gwneud y broses hon yn haws, dynodwyd y themâu canlynol er mwyn cynorthwyo i fapio holl ystod ADCDF.




Defnyddir y themâu hyn yn eang eisoes gan lawer o diwtoriaid a hyfforddwyr, ac maent yn seiliedig ar themâu a nodwyd gan UNESCO yn y Degawd o Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy. Nid yw'r themâu'n sefyll ar eu pen eu hunain – nid cyfres o bynciau annibynnol mohonynt. Mae'n hanfodol cysylltu'r holl bynciau, y naill â'r llall; bydd rhagori mewn ADCDF yn rhoi cyfle i ddysgwyr astudio ystod o faterion drwy'r themâu ac, wrth i'w hyder a'u profiad gynyddu, greu cysylltiadau pellach rhwng y themâu a'r cysyniadau allweddol (gweler Atodiad B). Mae rhai ymarferwyr dysgu oedolion a’r gymuned wedi canfod bod y cysyniadau allweddol yn ddefnyddiol, gan eu bod yn adlewyrchu rhai o gysyniadau sylfaenol dysgu oedolion a’r gymuned.

Fel y dynodir yn adolygiad Estyn ym mis Awst 2008, gall y themâu fod yn ddefnyddiol fel dull o fapio, er mwyn helpu ymarferwyr i werthuso'u hymarfer. Gallant hefyd fod yn fan cychwyn defnyddiol ar gyfer ADCDF, er ei bod hi'n bwysig pwysleisio mai cyfryngau ydynt i archwilio ac i ymgysylltu. Mae’r we gymhleth a chydgysylltiedig o faterion oddi mewn i ADCDF i’w defnyddio lle bo'n briodol a phan fyddant yn fwyaf perthnasol i faes y cwricwlwm a'r dysgwr – ni ddylid eu hystyried yn nod ynddynt eu hunain.

Yn ystod y broses o lunio'r ddogfen hon, gofynnwyd i grŵp o diwtoriaid o'r sectorau statudol yn ogystal â gwirfoddol sut maent yn mynd i'r afael ag ADCDF yn eu gwaith. Mae rhai o'r tiwtoriaid wedi bod yn cynnwys ADCDF yn eu darpariaeth ers tro, ond mae'r maes yn gymharol newydd i eraill. Isod ceir rhai esiamplau a ddefnyddiwyd neu a grëwyd gan y tiwtoriaid dysgu oedolion a'r gymuned:

*Edrychwch yn ddwfn i fyd natur, yna byddwch yn deall popeth yn well.*
***Albert Einstein***

**1. Hanes Lleol**

**Themâu ADCDF:** Dewisiadau a Phenderfyniadau, yr Amgylchedd Naturiol, Newid yn yr Hinsawdd, Cyfoeth a Thlodi.

**Cysyniadau:** Cyd-ddibyniaeth, Anghenion a Hawliau, Ansawdd Bywyd, Gwerthoedd a Chanfyddiadau.

**Trefn:**

- Cyfeiriwch at y sesiwn flaenorol am decstilau a'r chwyldro diwydiannol.
- Rhowch gyflwyniad ar ddirywiad y diwydiant – gan ganolbwyntio ar y diwydiant gwlân yng Ngwynedd.
- Rhowch gyflwyniad ar globaleiddio a'i effaith, gan gynnwys llafur rhatach mewn gwledydd eraill; amodau a hawliau gweithwyr a llafur plant yn y gwledydd hyn; yr effaith ar yr amgylchedd – cludo a milltiroedd awyr a'r ffactorau sy'n cyfrannu at newid yn yr hinsawdd, yr effaith negyddol ar amgylchedd y wlad o ran polisïau ac arferion gwastraff diwydiannol; ac effaith allfudo ar godi prisiau cynnyrch lleol yn y De.
- Trafodwch y materion hyn mewn perthynas â'n bywydau. Bydd prynwriaeth (*consumerism*) a'n gallu i brynu cynnyrch rhad yn y DU yn cael ei gynnwys yn y trafodaethau hyn. Fel ffordd hwyliog o ganolbwyntio ar fasnach deg, gellir dod â siocled masnach deg i'w brofi a'i rannu.

**2. TG – ECDL**

**Themâu ADCDF –** Dewisiadau a Phenderfyniadau, Defnyddio a Gwastraffu.

**Cysyniadau –** Dinasyddiaeth a Stiwardiaeth, Newid Cynaliadwy, Gwerthoedd a Chanfyddiadau.

**Trefn:**

- Defnyddiwch ffeithiau a gwybodaeth am ddefnydd amgylcheddol a chynaliadwy o TG.
- Cynhwyswch ailgylchu yn yr amgylchedd dysgu – papur ailgylchu, arbed ynni a rhannu adnoddau.

- Anogwch drafodaeth ar y materion hyn, gan gynnwys cyfyngiadau ailgylchu ac a yw hynny'n cael unrhyw effaith sylweddol ar y newid yn yr hinsawdd.
- Ar gyfer asesiad PowerPoint, gofynnir i ddysgwyr ymchwilio mater byd-eang neu amgylcheddol a rhoi cyflwyniad PowerPoint er mwyn annog trafodaeth.




**3. Cam 1 Cynrychiolwyr Undeb y TUC**

**Themâu ADCDF:** Hunaniaeth a diwylliant.

**Cysyniadau:** Dinasyddiaeth a Stiwardiaeth, Amrywiaeth.

**Trefn:** Cyflwynwch ogwydd yn y Cyfryngau/Parchu Amrywiaeth drwy:

- Gynnal dadl yn seiliedig ar y cwestiwn - fel cynrychiolwyr Undebau sut fyddwch chi'n adnabod hiliaeth ymysg aelodau?
- Drwy ddefnyddio amrywiaeth o erthyglau papur newydd, edrychwch ar y modd y mae'r ohebiaeth yn y cyfryngau am Fwslimiaid/ceiswyr lloches/ffoaduriaid/gweithwyr mudol yn cyfrannu tuag at ragfarn, a thrafodwch hynny.

- Trafod sut y gall cynrychiolydd Undeb herio hiliaeth a sicrhau parch tuag at amrywiaeth/hil/crefydd yn y gweithle.

**4. Ieithoedd – (canolradd – lefelau uwch)**

**Themâu ADCDF:** Gellir cynnwys unrhyw gyfuniad o'r 7 thema.

**Cysyniadau:** Gellir cynnwys unrhyw gyfuniad o'r 9 cysyniad allweddol.

**Trefn:**

- Rhowch gopïau o erthyglau papur newydd i'r dysgwyr eu darllen ar faterion amgylcheddol neu faterion byd-eang fel prinder bwyd neu wrthdaro. Gallai'r rhain ddod o bapurau newydd fel Le Monde neu El Pais, ac felly yn yr iaith a astudir, neu o bapurau newydd yn y DU.
- Cyflwynwch eirfa allweddol ac yna trafodwch yn yr iaith a astudir.
- Gallai dysgwyr roi cyflwyniadau byr ar bwnc llosg amgylcheddol neu fyd-eang, yn unigol, mewn parau neu mewn grwpiau er mwyn cychwyn trafodaeth ac annog cwestiynau.

**5. Y Celfyddydau Gweledol - Dylunio a Chreu drwy ddefnyddio Cyfryngau Cymysg**

**Themâu ADCDF:** Iechyd, Cyfoeth a Thlodi, Hunaniaeth a Diwylliant, Dewisiadau a Phenderfyniadau.

**Cysyniadau:** Anghenion a Hawliau, Amrywiaeth, Gwerthoedd a Chanfyddiadau, Datrys Anghydfod.


**Trefn:** Prosiect ar y cyd lle cydweithir ar y thema Hawliau Dynol:

- Defnyddiwch lyfrau, erthyglau a delweddau i gyflwyno'r thema i'r grŵp.
- O hynny, sbardunir trafodaeth ar y materion dan sylw.
- Yna bydd y grŵp yn dylunio baner gyda'i gilydd. Y tiwtor fydd yn arwain y prosesau celf a ddefnyddir, ond bydd y materion a godir gan y dysgwyr yn berthnasol i gyfeiriad y prosiect ac yn cael eu cynnwys ynddo.
- Bydd y cwrs hefyd yn helpu i feithrin sgiliau gwaith tîm, cyfathrebu a datrys gwrthdaro.

Rhai enghreifftiau yw'r rhain o'r modd y gellir integreiddio ADCDF yn rhwydd i amrywiaeth o feysydd cwricwlwm i raddau amrywiol. Maent hefyd yn dangos natur gydgysylltiedig y themâu a'r cysyniadau. Anaml iawn y byddant yn annibynnol, maent yn hytrach yn gysylltiedig â materion eraill. Yn hyn o beth, mae'n dod â'r cwricwlwm yn fyw ac yn ei wneud yn berthnasol i fywydau a diddordebau'r dysgwyr ac, yn unol ag arfer da mewn dysgu oedolion a'r gymuned, meddwl yn feirniadol a thrafodaethau'r dysgwyr fydd yn ei lywio.


## Adran 5: Effaith, dilyniant a datblygiad

Mae ADCDF mewn dysgu oedolion a'r gymuned ar agenda Llywodraeth Cymru ynghyd â'r sectorau addysg eraill. Mae wedi'i gynnwys ym meini prawf arolygu Estyn, wedi'i gefnogi gan Ddysgu Gydol Oes y DU (fel y caiff ei amlinellu yn y *Safonau Proffesiynol Trosfwaol Newydd ar gyfer Athrawon, Tiwtoriaid a Hyfforddwyr yn y Sector Dysgu Gydol Oes yng Nghymru – 2007, a chanllaw ymgeisio ADCDF 2009)* ac yn cael ei ddilysu ymhellach mewn adroddiad gan Estyn a luniwyd ym mis Awst 2008 – *Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang mewn Dysgu Oedolion a'r Gymuned a Gwaith Ieuenctid yng Nghymru.*










Gan hynny, mae'n hanfodol cynnwys ADCDF mewn hyfforddiant staff a datblygiad proffesiynol mewn sefydliadau dysgu oedolion a'r gymuned ar gyfer cyflogeion ym mhob categori. Mae'r sector dysgu oedolion a'r gymuned bellach yn darparu cyrsiau tystysgrif addysgu amrywiol i'w diwtoriaid ac i ddarpar diwtoriaid a bydd ADCDF yn cael ei gynnwys yn gynyddol yn rhan o'r cyrsiau hyn. Gweithwyr rhan amser ar gontractau byr iawn ac ar raddfeydd cyflog fesul awr yw'r rhan fwyaf o diwtoriaid dysgu oedolion a'r gymuned, felly er mwyn sicrhau cynnydd cadarnhaol y gwaith o integreiddio ADCDF i ddysgu oedolion a'r gymuned, rhaid ystyried hyn wrth drefnu hyfforddiant i staff ac wrth ddarparu adnoddau.

*Mae a wnelo addysgu da â chyflwyno'r cwestiynau cywir yn fwy na chyflwyno'r atebion cywir.*
***Josef Albers***

### Mesur a Gwerthuso

Bydd angen mesur cynnydd a manteision integreiddio ADCDF i ddysgu oedolion a'r gymuned, er mwyn dangos ystyr a gwerth y broses. Bydd angen i hyn gynnwys yr holl randdeiliaid perthnasol ac amrywio rhwng yr hyn y mae myfyrwyr yn ei ddysgu ac agweddau ar arfer ac ymrwymiad gwahanol o fewn y sefydliad ac o fewn partneriaethau.

Mae angen data meintiol ac ansoddol i greu darlun cyfan, a bydd angen mesur ar lefelau amrywiol.  Gallai ddigwydd mewn gwaith monitro ac archwilio oddi mewn i'r sefydliad, yn y gwerthusiad o ansawdd addysgu ac mewn gwerthusiadau dysgwyr, yn ogystal â hunanwerthuso ADCDF fel rhan o ddatblygiad proffesiynol.

Dylid datblygu dulliau gwerthuso arloesol, perthnasol a chadarn, sy'n gweddu i'r grwpiau o randdeiliaid amrywiol er mwyn dangos cynnydd a buddion, ac i ganfod ffyrdd o symud ymlaen.

# Atodiad A: Rhestrau gwirio i ddatblygu a chychwyn y broses hunanwerthuso

Man cychwyn yw'r rhestr – nid yw’n rhestr lawn, ac nid yw'n cynnwys holl sefyllfaoedd rhanddeiliaid.

## 1. Ymrwymiad ac arweiniad

### Rhestr wirio

- Sefydlwch bolisi ar ADCDF ar gyfer y sefydliad cyfan, wedi'i ategu gan yr uwch reolwyr, sy'n cynnwys nodau, strategaethau gweithredu a chanlyniadau clir.
- Integreiddiwch ADCDF i athroniaeth/ethos, cenhadaeth, polisi ac arferion busnes beunyddiol y sefydliad.
- Hyrwyddwch ddiwylliant Datblygu Cynaliadwy, Dinasyddiaeth Fyd-eang ac Ymwybyddiaeth Amgylcheddol.
- Sicrhewch ymwybyddiaeth o'r gofynion cyfreithiol ar y lefel reoli.
- Canfyddwch arbenigedd a brwdfrydedd sy'n bodoli eisoes ymysg staff.
- Neilltuwch ddigon o amser ac adnoddau i ddarparu ADCDF (e.e. datblygu staff, cynllunio).
- Cynhwyswch ADCDF yn thema allweddol wrth hyfforddi a datblygu staff.
- Sefydlwch gynlluniau i werthuso, monitro ac adrodd ar ADCDF ar bob lefel oddi mewn i'r ddarpariaeth.
- Cyfathrebwch weledigaeth ADCDF i staff, dysgwyr a rhanddeiliaid eraill.

### Cynghorion ar gyfer datblygu pellach/arfer gorau

- Ystyriwch ADCDF yn llawn wrth adolygu cenhadaeth/gweledigaeth/gwerthoedd craidd.
- Datblygwch weledigaeth uchelgeisiol i'r dyfodol sy'n goleuo cynllunio strategol.
- Cynhwyswch ADCDF fel blaenoriaeth yn y Cynllun Strategol.
- Rhannwch ac adolygwch y weledigaeth a'r gwerthoedd gyda dysgwyr, staff a rhanddeiliaid eraill perthnasol.

- Diffiniwch rolau rheoli a rolau unigol clir mewn perthynas ag ADCDF.
- Lluniwch gynllun gweithredu a sefydlu gweithgor.
- Neilltuwch gyllideb ar gyfer adnoddau dysgu ac addysgu ADCDF.
- Sicrhewch fod gan reolwyr a staff ddealltwriaeth glir o faterion ADCDF a sut y gellir eu cymhwyso.
- Sicrhewch y darperir yr wybodaeth a'r sgiliau angenrheidiol i staff a'r rhai a benodwyd yn hyrwyddwyr ADCDF.
- Cynigiwch amrywiaeth o ddulliau o ddatblygu staff.
- Sicrhewch fod rheolwyr yn rhoi digon o statws i ADCDF ac yn neilltuo digon o amser i'w gydlynu.
- Nodwch ddangosyddion i fesur cynnydd wrth hyrwyddo ADCDF a'i weithredu.
- Defnyddiwch arsylwadau dysgu/addysgu i gofnodi/adrodd ar ADCDF.
- Edrychwch ar yr hyn sydd o'ch blaen, ac ymatebwch i ofynion cyflogi ac agendâu sgiliau yn y dyfodol.
- Codwch ymwybyddiaeth ymysg staff a dysgwyr drwy gynnal ymgyrchoedd a chynadleddau/seminarau allweddol, cael siaradwyr gwadd ar faterion sy'n gysylltiedig ag ADCDF, codi hysbysiadau a phosteri o amgylch adeiladau.
- Elfen ADCDF ar y wefan ac mewn deunyddiau eraill fel cylchlythyrau.
- Darparwch hyfforddiant rheolaidd a pharhaus ar ADCDF i'r holl staff.
- Canfyddwch fylchau mewn hyfforddiant/sut ac ymhle y gellir datblygu ADCDF.
- Canfyddwch a rhannwch/lledaenwch arfer da.
- Cefnogwch gynllunio i integreiddio ADCDF i'r holl sefydliad.
- Cefnogwch gynllunio i ymwreiddio ADCDF yn y cwricwlwm ac mewn cynlluniau dysgu.

## 2. Rheoli sefydliadol

### Rhestr wirio

- Rhowch systemau, polisïau a gweithdrefnau yn eu lle i reoli effeithiau ar yr amgylchedd.
- Hyrwyddwch arferion byw iach a bioamrywiaeth mewn polisïau ac mewn cynlluniau gweithredu.
- Hyrwyddwch gyfle cyfartal, amrywiaeth a hawliau dynol mewn polisïau a chynlluniau gweithredu.
- Cynhwyswch ddysgwyr yn y broses.
- Datblygwch ac anogwch strategaethau prynu mwy cynaliadwy a moesegol.
- Rheolwch wastraff ac ynni yn well er mwyn lleihau'r effaith ar yr amgylchedd.
- Cynlluniwch a gweithredwch unrhyw ddatblygiadau adeiladu o'r newydd ac adnewyddu i sicrhau'r lefel uchaf o egwyddorion datblygu cynaliadwy.
- Anogwch ddefnydd effeithlon o adnoddau: llai o wastraff wrth y ffynhonnell; atgyweiriwch, gostyngwch, ailddefnyddiwch ac ailgylchwch yr holl wastraff posibl.
- Cynhwyswch yr holl randdeiliaid gan gynnwys y dysgwyr yn y gwaith o reoli'r sefydliad.

### Cynghorion ar gyfer datblygu pellach/arfer gorau

- Gweithredwch bolisi amgylcheddol.
- Defnyddiwch nwyddau a gwasanaethau lleol er mwyn lleihau'r llygredd a achosir drwy gludo.
- Prynwch gynnyrch a ailddefnyddir/wedi'u hailgylchu lle bo modd.
- Prynwch gan gyflenwyr sy'n amgylcheddol ddilys a chyflenwyr masnach deg.
- Anogwch staff a dysgwyr i leihau eu defnydd o adnoddau.
- Sicrhewch y diffoddir tapiau/gwresogyddion/goleuadau os nad oes neb yn eu defnyddio.
- Anogwch ddefnydd effeithlon o adnoddau/lleihau gwastraff, e.e. – ailgylchu papur, defnyddio systemau electronig i gyfathrebu'n fewnol/allanol, ailgylchu

deunyddiau eraill, ee metalau, gwydr, plastig, compostio eitemau darfodus priodol.

- Prynwch eitemau heb eu pecynnu/ag ond ychydig o becynnu.
- Sicrhewch fod bwyd a diod yn iachus, yn lleol, yn foesegol a chynaliadwy.
- Defnyddiwch ddulliau amgen i leihau teithio, ee annog pobl i ddefnyddio fideo-gynadledda, dysgwyr i ddefnyddio portffolios electronig, defnyddio beic, defnyddio cludiant cyhoeddus a rhannu cerbydau.
- Cynhwyswch agweddau ar Ddatblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang mewn holiaduron/gwerthusiadau dysgwyr.

## 3. Dysgu ac addysgu

**Rhestr wirio**

- Mapiwch y ddarpariaeth gyfredol – cyrsiau a rhaglenni, er mwyn canfod yr hyn sy'n cael ei arfer ar hyn o bryd.
- Sicrhewch fod yr holl diwtoriaid yn cael hyfforddiant ymwybyddiaeth o ADCDF.
- Sicrhewch fod yr holl diwtoriaid yn ymwybodol o ddatblygiad a chymorth ar gyfer ADCDF.
- Sicrhewch fod hyfforddiant tiwtoriaid a datblygiad staff yn parhau i gynnwys ADCDF.
- Sicrhewch fod y tiwtoriaid yn cael cefnogaeth i ymwreiddio ADCDF yn y cwricwlwm.
- Cynhwyswch ADCDF mewn deunyddiau dysgu ac addysgu.
- Dyluniwch y ddarpariaeth ddysgu mewn modd sy'n creu hyblygrwydd ac sy'n annog meddwl yn feirniadol.
- Sicrhewch fod y dysgwyr yn cael cyfle i gymryd rhan mewn rhai gweithgareddau ADCDF.
- Galluogwch y dysgwyr i feithrin y sgiliau, yr wybodaeth a'r gwerthoedd angenrheidiol.
- Anogwch y dysgwyr i gymryd rhan mewn trafodaethau ac wrth wneud penderfyniadau.

- Sicrhewch fod materion cydraddoldeb a chyfiawnder yn cael eu hyrwyddo.

- Sicrhewch y clywir ac yr ystyrir lleisiau'r dysgwyr mewn perthynas ag ADCDF.

**Cynghorion ar gyfer datblygu pellach/arfer gorau**

- Datblygwch gynllun gweithredu gyda thargedau ar gyfer cyflwyno ADCDF i'r ddarpariaeth ddysgu.

- Datblygwch gynllun gweithredu i gynorthwyo tiwtoriaid i ymwreiddio ADCDF mewn cyrsiau.

- Sicrhewch fod timau pwnc a chwrs yn archwilio rhaglenni er mwyn canfod cyfleoedd i ymwreiddio ADCDF mewn cynlluniau dysgu.

- Ymwreiddiwch ADCDF ar draws y ddarpariaeth dysgu, drwy'r holl lefelau achredu.

- Canfyddwch a rhannwch feysydd lle ceir arfer da oddi mewn i'r sefydliad a rhwng y naill sefydliad a'r llall.

- Cynorthwywch y dysgwyr i sylweddoli pa ran y gallant ei chwarae yn y gymuned leol ac yn y gymuned fyd-eang.

- Anogwch y dysgwyr i gymryd rhan, ee digwyddiadau i godi arian, cefnogaeth cymheiriaid/mentoriaid.

- Rhowch gyfle i ddysgwyr ddangos eu bod wedi dysgu'r wybodaeth ac wedi ennill y sgiliau a'r gwerthoedd angenrheidiol sy'n eu galluogi i wneud penderfyniadau deallus.

- Defnyddiwch esiamplau priodol o arfer da ar gyfer tiwtoriaid a dysgwyr.

- Cynhwyswch a rhowch y themâu allweddol a'r cysyniadau allweddol mewn cyd-destun mewn deunyddiau dysgu ac addysgu.

- Nodwch gysylltiadau trawsgwricwlaidd neu gysylltiadau â darpariaeth cydweithwyr ar draws meysydd cwricwlwm.

- Sicrhewch fod cyrsiau'n adlewyrchu ieithoedd, diwylliant ac economi'r gymuned ac unigolion lleol.

- Darparwch gronfa adnoddau ar-lein neu lyfrgell sy'n cynnwys deunyddiau ac adnoddau sy'n ymwneud ag ADCDF.

- Sicrhewch gydbwysedd cyfartal rhwng Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang.
- Rhowch le amlwg i ADCDF mewn Cynlluniau Dysgu.
- Archwiliwch a defnyddiwch gysylltiadau a phartneriaethau mewnol ac allanol.

## 4. Cymuned a phartneriaethau

### Rhestr wirio

- Sicrhewch fod yr holl bartneriaid mewn partneriaethau dysgu oedolion a’r gymuned wedi ymrwymo i bolisi ac arfer ADCDF.
- Ffurfiwch a chynhaliwch bartneriaethau ar gyfer ADCDF os yw'n briodol.
- Ymgynghori rheolaidd rhwng partneriaethau ac ystod o sefydliadau ac aelodau o'r gymuned leol.
- Sicrhewch fod dealltwriaeth glir ymysg partneriaid a rhanddeiliaid ynghylch rolau a chyfrifoldebau.
- Sicrhewch eu bod yn ymwybodol o gydfuddiannau ADCDF.
- Y bartneriaeth i ganfod ffynonellau ariannu posibl.
- Datblygwch gysylltiadau cenedlaethol a rhyngwladol a phartneriaethau.
- Gweithiwch gyda sefydliadau a grwpiau lleol a rhanbarthol er mwyn gwella darpariaeth a'r ddealltwriaeth o ADCDF.

### Cynghorion ar gyfer datblygu pellach/arfer gorau

- Pennwch unigolyn/hyrwyddwr o fewn partneriaethau i fod yn gyfrifol am roi trosolwg o ADCDF.
- Ffurfiwch weithgorau.
- Sicrhewch fod partneriaethau'n cynnwys yr holl randdeiliaid, gan gynnwys staff mewnol a dysgwyr a rhanddeiliaid allanol fel cyflogwyr, grwpiau cymunedol a gwirfoddol.
- Nodwch ac ymchwiliwch i bartneriaethau posibl ac arbenigwyr, rhaglenni a phrosiectau allanol er mwyn hyrwyddo ADCDF, er mwyn datblygu a chynyddu cysylltiadau cenedlaethol a byd-eang a phartneriaethau mewn lleoliadau dysgu ac addysgu ac i ddatblygu partneriaethau mewn gwledydd sy'n datblygu.

- Trafodwch faterion rheoli sefydliadol fel prynu'n foesegol ac effaith cynnyrch a gwasanaethau ar gymdeithas ac ar les pobl gyda chwmnïau lleol.

- Rhannu cyfleusterau â'r gymuned.

- Rhannu profiadau o ymwreiddio ADCDF gyda phartneriaethau eraill.

## 5. Ymchwil a monitro

### Rhestr wirio

- Sicrhewch fod monitro a gwerthuso ADCDF yn cael ei ymgorffori mewn polisïau, cynllunio strategol a chynlluniau gweithredu.

- Sefydlwch archwiliad sylfaenol drwy fapio'r ddarpariaeth.

- Cynlluniwch feini prawf a systemau monitro.

- Sefydlwch grŵp monitro a gwerthuso sy'n cynnwys pobl allweddol a chanddynt wybodaeth a sgiliau priodol.

- Nodwch hyfforddiant mewn technegau monitro, mesur canlyniadau a gwerthuso.

- Pennwch staff i fod yn gyfrifol am fonitro a gwerthuso.

- Crëwch dechnegau gwerthuso arloesol, realistig a phriodol er mwyn cael tystiolaeth ar ganlyniadau ADCDF.

- Monitrwch, gwerthuswch ac ymchwiliwch i bob maes – arweiniad, partneriaeth, rheolaeth yn ogystal â dysgu ac addysgu.

### Cynghorion ar gyfer datblygu pellach/arfer gorau

- Casglwch ddata mewn cynifer o wahanol ffyrdd ag sy'n bosibl gan gynnwys ystod o randdeiliaid yn y broses – rheolwyr, rheolwyr rhaglen, tiwtoriaid a dysgwyr.

- Sefydlwch systemau monitro sy'n realistig ac yn ymarferol, ac y gellir adeiladu arnynt wrth i'r broses ddatblygu.

- Cynhwyswch y dysgwyr yn y gwaith o nodi dulliau a meini prawf monitro a gwerthuso.

- Dechreuwch sefydlu systemau monitro cyn gynted ag sy'n bosibl.

- Canfyddwch feysydd posibl i'w hymchwilio.

- Canfyddwch a datblygwch bartneriaethau ar gyfer prosiectau ymchwil.

- Archwiliwch gyfleoedd ariannu i'w hymchwilio.

## 6. Sicrhau adnoddau

**Rhestr wirio**

- Dewch o hyd i adnoddau i gefnogi ADCDF.

- Sicrhewch fod adnoddau ar gael i'r holl randdeiliaid.

- Drwy bartneriaethau, canfyddwch ac ewch ar drywydd ffynonellau ariannu i gefnogi ADCDF.

- Sicrhewch y canfyddir y meysydd ariannu a fydd o'r budd mwyaf ac a fydd hefyd yn gynaliadwy drwy fapio, archwilio, monitro a gwerthuso.

- Sefydlwch grŵp ariannu ar gyfer ADCDF.

**Cynghorion ar gyfer datblygu pellach/arfer gorau**

- Rhannwch wybodaeth â sefydliadau a grwpiau eraill.

- Gweithiwch mewn partneriaeth i wneud yn fawr o'r cyfleoedd i gael nawdd a'r defnydd o adnoddau.

# Atodiad B: Themâu a chysyniadau mewn ADCDF

Yn 2002, diffiniwyd mai ystyr ADCDF oedd:

- y cysylltiadau rhwng cymdeithas, yr economi a'r amgylchedd a rhwng ein bywydau ni ein hunain a bywydau pobl ar hyd a lled y byd;
- anghenion a hawliau cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol;
- y berthynas rhwng pŵer, adnoddau a hawliau dynol;
- goblygiadau lleol a byd-eang popeth a wnawn a'r camau y gall unigolion a sefydliadau eu cymryd i ymateb i faterion lleol a byd-eang.

(Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang: Pam? Beth? Sut? ACCAC 2002).

Roedd y ddogfen hon yn darparu'r naw 'cysyniad allweddol' a fyddai'n sail i ADCDF. Dyma nhw:

- **cyd-ddibyniaeth;**
- **dinasyddiaeth a stiwardiaeth;**
- **anghenion a hawliau;**
- **amrywiaeth;**
- **newid cynaliadwy;**
- **ansawdd bywyd;**
- **ansicrwydd a rhagofalon;**
- **gwerthoedd a chanfyddiadau;**
- **datrys anghydfod.**

Serch hynny, teimlwyd mewn gwirionedd nad oedd natur haniaethol y cysyniadau allweddol hyn yn helpu athrawon na dysgwyr i ddeall ystyr ADCDF (Estyn, 2008. ADCDF mewn dysgu oedolion yn y gymuned a gwaith ieuenctid yng Nghymru). Roedd angen mwy o eglurhad ac arweiniad cadarn ynghylch agweddau ymarferol ADCDF, pa feysydd y dylid eu trafod a sut y dylai tiwtoriaid a hyfforddwyr ddechrau mynd i'r afael â'r materion dan sylw, sy'n aml yn rhai cymhleth.

Mae'r themâu a awgrymwyd eisoes yn cael eu defnyddio'n eang gan lawer o diwtoriaid a hyfforddwyr, ac maent yn seiliedig ar themâu a nodwyd gan UNESCO yn y Degawd o Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy. Rhaid iddynt fod yn gysylltiedig â'i gilydd – nid cyfres o destunau annibynnol mohonynt. Bydd rhagori mewn ADCDF yn galluogi

dysgwyr i astudio ystod o faterion, drwy'r themâu ac, wrth i'w hyder a'u profiad gynyddu, greu cysylltiadau pellach rhwng y themâu a'r cysyniadau allweddol. Dyma'r themâu:



# Cyfeiriadau

Safonau proffesiynol trosfwaol i athrawon, tiwtoriaid a hyfforddwyr yn y sector dysgu gydol oes yng Nghymru (LLUK).

Gweithredu'r Safonau Proffesiynol er Ymwreiddio Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang yn y Sector Dysgu Gydol Oes yng Nghymru (LLUK, Gorffennaf 2009).

Estyn, 2008: Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang mewn dysgu oedolion yn y gymuned a gwaith ieuenctid yng Nghymru.